"Dewch ataf fi, bawb sy'n flinedig ac yn llwythog, ac fe roddaf fi orffwystra i chwi."
(Mathew 11:28)

Dyma wahoddiad ac addewid hyfryd gan y Gwaredwr. Mae'n gymhelliad cynnes ganddo i ddod ato, ac mae'n cynnig rhywbeth gwerthfawr iawn i ni, sef gorffwys.

Y blinedig a'r llwythog

Mae'n ddiddorol nodi pwy sydd yn cael gwahoddiad y Gwaredwr. Nid y rhai cryf, cyhyrog, annibynnol sydd yn anterth eu nerth, ond y diffygiol. Mae hyn yn ein hatgoffa o'i eiriau mewn man arall: **"Nid ar rai iach, ond ar y cleifion y mae angen meddyg; i alw pechaduriaid i edifeirwch, nid rhai cyfiawn, yr wyf fi wedi dod"** (Luc 5:31-32). Mae'n ein hatgoffa hefyd o wahoddiad grasol Duw trwy'r proffwyd Eseia: **"Dewch i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno; dewch, er eich bod heb arian."** (Es .55:1-2)

Mae'r gwahoddiad i'r anghenus, felly; y sawl sydd yn ymwybodol o wendid, o salwch, o flinder ysbrydol. Mae'r gair am 'flinedig' yn golygu cyflwr o flinder ar ôl llafur caled iawn. Mae sawl cyfieithiad Saesneg yn defnyddio'r gair 'labour'. Mae'r gair 'llwythog' yn awgrymu person sy'n cael ei wasgu gan 'lwythau' gwahanol yn ei fywyd.

Beichiau bywyd

Mae'n bosib bod Iesu'n meddwl am lawer o Iddewon oedd dan faich dysgeidiaeth yr ysgrifenyddion. Roedden nhw'n dysgu traddodiad yr hynafiaid yn ychwanegol at Gyfraith Moses. Roedd yr ychwanegiad yma'n cynnwys cannoedd o fân reolau caethiwus iawn: **"Gwae chwithau athrawon y Gyfraith, oherwydd yr ydych yn beichio pobl â beichiau anodd eu dwyn, beichiau nad yw un o'ch bysedd chwi byth yn cyffwrdd â hwy"** (Luc 11:46).

Daeth Crist i'n rhyddhau o feichiau dynol, cnawdol, sydd yn llwytho bywyd dynol. Mae'n bosib i ni heddiw gael crefydd sydd yn faich ar bobl, ac yn wahanol i Efengyl y Testament Newydd. Faint o bobl Cymru sydd yn meddwl bod rhaid cyrraedd rhyw safon moesol derbyniol er mwyn dod yn Gristion? Faint sydd yn tybio mai peidio â gwneud nifer o bethau sy'n dod â ni i deyrnas Crist?

Mae'n wefreiddiol i sylweddoli bod Duw wedi caru byd amherffaith a drygionus, a bod Crist wedi dod i alw'r amherffaith a'r drygionus ato, fel yr oeddent. Ef sydd yn ein newid, Ef sydd yn ein sancteiddio, a hynny trwy ei gariad.

Baich pechod

Y baich mwyaf, a gwreiddyn pob baich, yw pechod. Pechod yw gwrthryfel yn erbyn Duw. Pechod yw anwybyddu Duw, ac unwaith gwnaeth y ddynoliaeth hynny, roedd y beichiau'n dechrau pentyrru. Daeth drygioni, balchder, euogrwydd, llygredd a marwolaeth yn sgil torri'r cysylltiad â Duw.

Mae ceisio byw trwy ein nerth ni'n hunain yn hynod o galed a llafurus. Daeth Crist i'n galw nôl at Dduw. Daeth i roi maddeuant, cymod â Duw, ac felly nerth Duw yn ein bywyd ni. Onid yw'n hyfryd i'w glywed yn ein gwahodd i ddod *gyda'n beichiau,* ac nid dweud wrthym ni i ddelio â nhw yn gyntaf, cyn y gallwn drafod telerau gyda Mab y Dyn!

Enghreifftiau

Cawn enghreifftiau gwych o hyn yn digwydd yn y Testament Newydd. Daeth y gwahanglwyfus ato i geisio glanhad, ac roedd Iesu'n awyddus i'w iacháu. Mae'n darlunio'r Mab Colledig yn dod nôl adref i groeso brwd a chynnes, er ei fod wedi torri calon ei dad ac wedi gwastraffu ei fywyd a'i eiddo.

Gwelwn yr apostolion ar ddydd y Pentecost yn croesawu'r Iddewon oedd yn edifeiriol am wrthod y Crist, trwy eu cyfeirio i gredu ynddo, i ymddiried ynddo. Gwelwn Paul yn cynnig achubiaeth i geidwad y carchar yn Philipi pan oedd yn teimlo'n fethiant yn ei waith, ac yn euog am iddo garcharu dynion duwiol.

Gorffwystra

Iesu yw ein Noa ni. Ystyr yr enw Noa yw 'gorffwys'. Bu'r arch-adeiladwr ffyddlon yn gyfrwng i ddod â gorffwystra i weddill creadigaeth Duw yn ystod y dilyw, ac mae Iesu Grist yn rhoi gorffwystra yn arch yr Efengyl i weddill y ddynoliaeth sydd yn credu ynddo, pwy bynnag a gredo.

Esmwyth ac ysgafn

Ar ddiwedd y paragraff fe ddywed Iesu fod ei iau yn hawdd ei dwyn, a'i faich yn ysgafn. Ydy hynny'n golygu bod bywyd y Cristion yn wyliau parhaus, fel mynd am dro yn y parc? Nac ydi wir!

Mae bywyd y Cristion yn golygu cost a disgyblaeth. Mae bywyd y Cristion yn galed ac anodd iawn ar brydiau, ond eto mae'n bleser.

Yr ydym yn ildio i Frenin addfwyn, tyner, gostyngedig a chariadus. Pan oedd pobl wedi profi gras Duw yn Iesu, roedden nhw'n awyddus i'w ddilyn. Wedi profi cariad y groes yn ein calonnau, sut allwn ninnau wrthod plygu ac ildio'n bywyd i'n Hanwylyd bendigedig? Mae llafur cariad yn bleser, yn esmwyth ac yn ysgafn.